Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Cyfarfod:** **Bwrdd Plismona**
**Lleoliad:** **Ystafell Gynadledda SCHTh**
**Dyddiad:** **24 Chwefror 2016**
**Amser::** **10:00 – 10:40**

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (ALP)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG) Dr Helen Morgan-Howard, Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 10/02/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 565** | **Yr Heddlu i ymateb i'r CHTh mewn perthynas ag ymateb GanBwyll i bryderon cymunedol a rhoi diweddariad ynghylch cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder Trecastell** | **Ar waith** |
| **PB 566** | **CHTh i arwyddo'r cofnod penderfyniad ar gyfer ei gyhoeddi, ynghyd â phenderfyniad y llynedd** | **Cwblhawyd** |
| **PB 567** | **Adolygu prosesau traffig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Mai ac adolygu pob llythyr troseddau moduro** | **Ar waith** |
| **PB 568** | **Y PG i roi diweddariad i'r CHTh ar drafodaethau â Heddlu De Cymru mewn perthynas â datblygiadau o ran darpariaeth dalfa Abertawe** | **Ar waith** |
| **PB 569** | **Darparu data o ran defnydd o'r hofrennydd cyn ymuno â'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol gyda'r data defnydd misol ar gyfer dibenion cymharu, gan gynnwys amser y digwyddiad** | **Ar waith** |
| **PB 570** | **DBG i ddilyn camau gweithredu o gyfarfod y BCTLI mewn perthynas â rhannu data â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | **Ar waith** |

## Diweddariad y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro

Dywedodd y DBG bod pum swyddog dal wedi'u hatal o'u gwaith. Darparodd y DBG drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys rhai marwolaethau anesboniadwy, achub dau gerddwr a oedd ar goll yn ardal Dan-yr-Ogof, cadw mewnfudwr anghyfreithlon a oedd yn ceisio dod mewn i'r wlad drwy Ddoc Penfro, ac arestio 3 troseddwr teithiol mewn ymgyrch ar y cyd â Heddlu De Cymru.

## Diweddariad Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Dywedodd DGHTh y byddai'r CHTh yn cwrdd ag Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin wythnos nesaf i drafod materion ystadau. Roedd diwrnod Eich Llais nesaf CHTh wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf yn Aberystwyth. Roedd cynnig amlinellol wedi'i dderbyn gan Gwmni TGCh yr Heddlu i gynnal adolygiad manwl o ddarpariaeth TG HDP. Dywedodd DGHTh y byddai'r cynnig yn cael ei rannu â'r heddlu ar ôl derbyn y costau. Roedd cyflwyno canfyddiadau adolygiad Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi'i ohirio, fodd bynnag, roedd y PG wedi cael gwybod am yr argymhellion craidd.

## Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol

Dywedodd y PSA bod yr adolygiad ariannu fformiwla wedi'i ohirio, ond ni wŷr pryd y byddai'n ailgychwyn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod cyllid ar gyfer SCCH yn 2016/17 wedi'i sicrhau.

## Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau

Dywedodd y CA bod cyflwyno Kelvin Connect wedi'i ohirio tan 7 Mawrth oherwydd mân broblemau technegol. Roedd system desg gymorth TG ar gyfer yr adran ystadau'n cael ei dreialu, a'r nod yw y bydd yn fyw ddechrau Mawrth. Roedd rhai diwygiadau'n cael eu gwneud i'r prosiect ystafell bost ddigidol, a byddai hynny'n weithredol yn llawn ym mis Mawrth hefyd. Byddai'r swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol yn cael ei hysbysebu'n ddiweddarach yn yr wythnos. Cafwyd trafodaeth ynghylch y swydd Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan. Nodwyd y byddai'r hysbyseb yn cael ei gyhoeddi ymhen amser, ond roedd llawer o waith yn digwydd er mwyn cytuno ar y telerau cyflogaeth a'r strwythur llywodraethol.

Ceisiodd DGHTh fanylion pellach am Ymgynghorydd Gwrthderfysgaeth Newydd sy'n cael ei hysbysebu yn yr Hysbysiadau Wythnosol. Dywedodd y DBG fod y rôl yn gyffredin ar draws pob Heddlu yn Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru, ei bod yn cyfrannu at atal a diogelu, a bod ganddi ofynion cymhwyso a fetio diogelwch llym.

**Adolygiad o'r cynllun Brysbennu Iechyd Meddwl ar ôl blwyddyn**

Dywedodd DGHTh bod yr adroddiad a dderbyniwyd yn ddiweddariad defnyddiol. Dywedodd yr adroddiad bod peth gelyniaeth wedi'i brofi tuag at y tîm, a holodd DGHTh pam. Gofynnodd DGTh pa un ai a oedd effaith gadarnhaol y prosiect yn ymwneud â buddsoddi yn y faniau, neu'n bennaf o ganlyniad i'r cydweithio rhwng y bwrdd iechyd a HDP. Ystyriodd y DBG mai cymysgedd o'r ddau ydoedd a bod angen cymharu ag ardaloedd eraill er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch ariannu'r cerbydau yn y dyfodol. Hefyd, gofynnodd DGHTh pa un ai a fu cynnydd ym Mhowys o ran datblygu prosiect tebyg. Cytunodd y DBG i edrych i mewn i'r cwestiynau a godwyd ac adrodd i gyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ateb cwestiynau a godwyd gan DdGHTh mewn perthynas â'r prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl**

**Recriwtio Swyddogion Heddlu Gwirfoddol**

Ystyriwyd yr adroddiad heb y data monitro cyfleoedd cyfartal, a oedd wedi'i dynnu yn ôl cyn y cyfarfod. Roedd DGHTh yn fodlon â'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y targed hirdymor o 200 Cwnstabl Gwirfoddol (CG) gweithredol a dywedodd bod angen i'r gwella parhau. Gofynnodd pa un ai a oedd mwy y gellir ei wneud i recriwtio mwy o unigolion. Ceisiodd DGHTh sicrwydd bod y model a ddefnyddir i recriwtio a phrosesu ymgeiswyr yn effeithiol. Dywedodd DGHTh bod rhai newidiadau wedi'u gwneud a bod y broses yn cael ei monitro'n barhaus. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gwella cydnabod CG fel rhan o'r teulu heddlu. Dywedodd y DBG fod Heddlu De Cymru wedi sicrhau bod CG yn cael eu hystyried fel staff heddlu. Gan hynny, roeddent yn gymwys i wneud cais ar gyfer adleoliad neu drosglwyddiad. Dywedodd DGHTh ei fod wedi derbyn adborth gan Gwnstabliaid Gwirfoddol nad oeddent yn ceisio gwobrau, ond cydnabyddiaeth, ac roeddent yn ystyried y byddai'r un offer, hyfforddiant a pharch a roddir i swyddogion cyflogedig yn ymgorffori CG o fewn yr Heddlu.

**Datrysiadau Cymunedol Oedolion (DCO)**

Cychwynnodd ALP drafodaethau ynghylch dadansoddi'r math o ddatrysiadau sy'n cael eu gweithredu. Daeth i'r amlwg y byddai angen edrych ar bob ffeil achos er mwyn cael y lefel manylion a geisir gan nad oedd hyn ar gael ar y gronfa ddata. Darparwyd data ar y mathau o droseddau lle defnyddiwyd DCO er gwybodaeth. Cafwyd trafodaeth ynghylch craffu'n briodol ar ddatrysiadau a weithredwyd ac unrhyw gyfeiriadau a wnaed i wasanaethau wedi'u comisiynu. Cytunwyd bod angen ystyried y mater ymhellach.

**Cam Gweithredu: Ystyried adolygu cofnodi DCO**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Gohebiaeth a dderbyniwyd***

*Oracle / TGCh*

Trafodwyd e-bost a dderbyniwyd gan Gwmni TGCh Oracle mewn perthynas â'r gwasanaethau fedrant ddarparu. Roedd CHTh wedi derbyn ymateb ynghylch y mater gan y Cyfarwyddwr TGCh Cynorthwyol, a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod â Chwmni TGCh yr Heddlu.

*Ymddiriedolaeth Lucie Blackman*

Derbyniwyd llythyr gan Ymddiriedolaeth Lucie Blackman yn ceisio cyllid i gefnogi teuluoedd Prydeinig sy'n dioddef trawma dramor. Gofynnodd DGHTh pa mor aml oedd preswylwyr Heddlu Dyfed-Powys wedi defnyddio eu gwasanaethau, pa un ai a oedd o fudd i HDP, a pha un ai a oedd yn ddefnydd doeth o 31200. Cytunwyd y byddai'r cwestiynau a godwyd yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad.

**Cam Gweithredu: DBG i sefydlu atebion i gwestiynau a godwyd gan DdGHTh mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Lucie Blackman cyn ymrwymo i'r cyfraniad ariannol**

*Beiciau Gwaed Cymru*

Cododd DGHTh ohebiaeth a dderbyniwyd gan SCHTh wrth 'Beiciau Gwaed Cymru', a oedd yn chwilio am leoliad i gadw eu beiciau modur. Dywedodd DGHTh fod hyn yn fater gweithredol i'r Heddlu ystyried. Cytunodd y DBG i'r cais mewn egwyddor, ond roedd angen trafodaeth bellach i gytuno ar y manylion. Cytunodd DGHTh i ymateb yn unol â hynny, gan awgrymu pwynt cyswllt sengl o fewn yr Heddlu i symud ymlaen â'r mater.

**Cam Gweithredu: DGHTh i ymateb i 'Beiciau Gwaed Cymru' mewn perthynas â chadw beiciau modur**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 24/02/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 571** | **Yr Heddlu i ateb cwestiynau a godwyd gan DdGHTh mewn perthynas â'r prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl** | **DBG** |
| **PB 572** | **Ystyried adolygu cofnodi DCO** | **DBG** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 573** | **DBG i sefydlu atebion i gwestiynau a godwyd gan DdGHTh mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Lucie Blackman cyn ymrwymo i'r cyfraniad ariannol** | **DBG** |
| **PB 574** | **DGHTh i ymateb i 'Beiciau Gwaed Cymru' mewn perthynas â chadw beiciau modur** | **DGHTh** |